

## Helpu i Gofnodi ein Gorffennol ar gyfer y Dyfodol

Gall defnydd cyfrifol o ddatgelyddion metel ein helpu ni i ddeall y gorffennol. Yn aml, yr hyn a gaiff ei ddarganfod â datgelyddion metel yw'r unig dystiolaeth o weithgarwch dynol, ond pan gaiff ei dynnu o'r ddaear (heb ei gofnodi'n briodol), yna mae'r dystiolaeth wedi'i cholli. Felly dylai darganfyddwyr ddilyn [Cod Ymarfer Canfod Metel yn Gyfrifol yng Nghymru a Lloegr](#), a chofnodi'r hyn maen nhw'n ei ddarganfod gyda'r Cynllun Henebion Cludadwy (PAS).

Mae'r PAS yn cofnodi'r hyn mae'r cyhoedd wedi'i ddarganfod er mwyn datblygu dealltwriaeth o archaeoleg yng Nghymru a Lloegr. Mae'r data hwn ar gael drwy ei [gronfa ddata](#) ar-lein. Gall unrhyw un gael mynediad at y wybodaeth hon, ond dim ond ymchwilwyr cyfreithlon all weld gwybodaeth fanwl am yr union leoliad.

Mae'r Cynllun yn cynnwys 40 o Swyddogion Cyswllt Darganfyddiadau Lleol ledled Cymru a Lloegr. Eu swydd yw cydweithio gyda'r darganfyddwyr a chofnodi'r hyn maen nhw wedi'i ddarganfod. Manylion cyfredol [staff PAS](#).

Mae gan y Swyddogion Cyswllt ddiddordeb mewn gweld pob gwrthrych archeolegol a darnau arian rydych chi'n eu darganfod, ond maen rhaid iddynt ddewis a dethol yr hyn maen nhw'n ei gofnodi. Bydd darganfyddiadau'n cael eu benthyca gennych chi, ond yn cael eu dychwelyd ar ôl eu hadnabod a'u cofnodi. Mae'n bwysig eich bod yn darparu Cyfeirnod Grid Cenedlaethol manwl (chwe ffigur o leiaf) ar gyfer pob darganfyddiad, gan nad oes llawer o werth archeolegol iddynt heb leoliad.

O dan [Ddeddf Trysor 1996](#), mae'n rhaid i ddarganfyddwyr adrodd am ganfyddiadau o Drysor posibl yn ôl y gyfraith. Fel arfer, bydd darganfyddiadau o'r fath yn cael eu hadrodd wrth y Swyddog Cyswllt Darganfyddiadau perthnasol, a fydd yn gallu rhoi rhagor o gyngor ac arweiniad ar y broses.

Mae'r Ddeddf yn caniatáu i amgueddfa genedlaethol neu leol gaffael Trysor er budd y cyhoedd. Os bydd hyn yn digwydd, telir gwobr, a gaiff ei rhannu rhwng y darganfyddwr a pherchennog y tir fel arfer. Pennir y wobwr ar werth llawn y farchnad, a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a gaiff eu cynghori gan banel annibynnol, y Pwyllgor Prisio Trysor. Weithiau nid yw darganfyddwyr neu berchnogion tir yn hawlio eu gwobr, gan alluogi amgueddfeydd i gaffael darganfyddiadau am gost is neu am ddim.

Yn ôl y gyfraith, ni all darganfyddiadau archeolegol adael y Deyrnas Unedig heb drwydded allforio: mae hyn yn ofynnol ar gyfer pob darganfyddiad sydd dros hanner can mlwydd oed. Mae rhwymedigaeth ar yr allforiwr i wneud cais am drwydded, a chynghorir eu bod yn defnyddio cyfeirnod cronfa ddata PAS ar gyfer pob darganfyddiad mewn [ceisiadau allforio](#).

Rheolir y PAS gan yr Amgueddfa Brydeinig yn adran Trysor a Hynafiaethau Cludadwy, Yr Amgueddfa Brydeinig, Llundain, WC1B 3DG. Ffôn: 0207 323 8611. E-bost: [info@finds.org.uk](mailto:info@finds.org.uk)

Mae'r wybodaeth hon ar gael yn

Gymraeg, [Iseldireg](#), [Saesneg](#), [Ffrangeg](#), [Almaeneg](#), [Eidaleg](#), [Pwyleg](#).